

# Canllaw i dystion yr heddlu mewn ymchwiliadau

Chwefror 2020

Mae Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) yn ymchwilio i ddiwyddiadau a honiadau difrifol a sensitif yn ymwneud â'r heddlu. Ar ddechrau bob ymchwiliad, rydym yn amlinellu pa rannau o'r digwyddiad neu achos y byddwn yn ymchwilio iddynt, ac mae hyn wedi'i fanylu yn ein cylch gorchwyl i'r ymchwiliad.

Mae ein hymchwilwyr yn gyfrifol am gasglu tystiolaeth i sefydlu holl amgylchiadau o'r hyn sydd wedi digwydd gan gynnwys adroddiadau ar lafar gan dystion - mae hyn yn cynnwys dystion sy'n swyddogion yr heddlu.

## Diben y canllaw hwn

Diben y canllaw hwn yw darparu gwybodaeth i swyddogion ynglŷn â'r hyn y gallant ei ddisgwyl pan ofynnir iddynt gyflwyno adroddiad tyst; y wybodaeth y byddwn ni'n ei darparu iddynt hwy; a sut byddwn yn gwneud penderfyniadau ar y ffordd fwyaf priodol o ymgysylltu â'r swyddog.

Yn ogystal, mae'n egluro'r disgwyliadau sydd gennym ni o'r swyddog y gofynnir iddo ddarparu adroddiad a sut ydym yn disgwyl iddo ryngweithio gyda ni. Os, yn ystod ymchwiliad, adnabyddir y swyddog fel testun, byddai'n cael gwybod o hyn drwy hysbysiad ffurfiol priodol.

### Beth all swyddog ei ddisgwyl

- **Cael gwybod ei fod yn cael ei drin fel tyst:** mae hyn yn golygu y caiff wybod bod ganddo statws tyst, at ddiben yr ymchwiliad hwn, ac nad yw'n destun yr ymchwiliad.
- **Bydd cwmpas yr ymchwiliad yn glir:** mae hyn yn golygu y dylid egluro graddfa a diben yr ymchwiliad a bod y paramedrau yn cael eu diffinio. Lle bynnag bo'n bosibl, dylai'r swyddog gael eglurhad o'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn ymchwiliad yr IOPC (bydd hyn bob tro yn destun y prawf niwed).
- **Cael eglurhad o sut mae'r ymchwilydd yn credu gall y tyst gynorthwyo â'r ymchwiliad.** Yn benodol, dylai gael y manylion canlynol:
  - pam bod y digwyddiad yn cael ei ymchwilio
  - beth a greidir mae'r swyddog wedi bod yn dyst iddo; a
  - beth a greidir mae'r swyddog yn ei wybod.
- **Dull gweithredu cymesurool a rhesymol:** mae hyn yn golygu y dylai'r cais am adroddiad gan dyst fod yn rhesymol a chymesurool i'r ymchwiliad, a bod ffynonellau tystiolaethol eraill wedi'u hystyried a'u harchwilio (megis camerâu ar y corff) cyn bod adroddiad gan dyst yn hanfodol.
- **Y dylid ystyried cyflwyno datganiad ysgrifenedig gan y swyddog cyn gofyn iddo fynychu cyfarfod wyneb yn wyneb;** yn aml bydd yn gymesurool a rhesymol

ceisio adroddiad drwy ofyn i'r tyst ddarparu ei adroddiad ar ffurf datganiad. Dylai'r datganiad fod wedi'i ysgrifennu gan y swyddog, yn ei eiriau ei hun.

- **Digon o amser i gyflwyno datganiad ysgrifenedig:** dylid cytuno ar amserlen cyflwyno datganiad ysgrifenedig i ganiatáu amser i'r swyddog ddarparu'r adroddiad tyst (a cheisio cyngor gan ei gymdeithas staff a/neu gynrychiolydd cyfreithiol os yn briodol) wrth fod yn ymwybodol o'r angen am ymateb prydlon.
- **Yr eglurir gofyniad i fynychu cyfarfod wyneb yn wyneb:** blaenoriaeth bwysicaf yr IOPC yw sicrhau bod yr holl ymholiadau yn cael eu cynnal yn effeithiol, yn drylwyr ac yn brydlon.

Gall adroddiad tyst gan swyddog fod yn allweddol i gael y dystiolaeth hon ac felly gall fod yn rhesymol a chymesurol darparu adroddiad cyntaf wyneb yn wyneb. Bydd sain y cyfarfod hwn yn cael ei recordio a bydd copi'au o ddisgiau ar gael i'r tyst a fydd yn gallu gwneud cais i addasu cyn llofnodi adroddiad ysgrifenedig. Mae enghreifftiau o ba bryd gallai hyn fod yn bosibl yn cynnwys y tyst yn ifanc o ran ei wasanaeth ac angen rhagor o gymorth; lle mae'r digwyddiad yn gymhleth ac yn gofyn rhagor o eglurhad ac archwiliad; ac mewn achosion lle mae natur ddifrifol a sensitif o'r hyn a ddigwyddodd, neu'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad, yn fwy tebygol o fod angen eglurhad gan y tyst.

## Cydweithredu ag ymchwiliad

Mae [safonau ymddygiad proffesiynol](#) yn amlinellu'r safonau disgwyliedig gan swyddogion yr heddlu. Dan y pennawd dyletswyddau a chyfrifoldebau, nodir bod gan 'Swyddogion yr Heddlu gyfrifoldeb am gydweithredu'n briodol yn ystod ymchwiliadau, ymholiadau a gweithdrefnau ffurfiol, gan gymryd rhan yn agored a phroffesiynol yn unol â disgwyliadau swyddog yr heddlu pan y'i nodir fel tyst'.

Os honnir bod diffyg cydweithrediad, gall swyddog ddisgwyl:

- **Cael tystiolaeth o unrhyw achos a ystyrir yn ddiffyg cydweithrediad:** Mae gan yr IOPC ddisgwyliaid clir y bydd swyddogion yn cydweithio ag ymchwilyddwr yn ystod ymchwiliad gan yr IOPC. Gall diffyg cydweithrediad gan dyst gynnwys gwrthod ateb cwestiynau rhesymol, peidio â chyflwyno datganiad o fewn yr amserlen gytunedig, neu fethu â mynychu cyfweiliad heb reswm da. Os yw ymchwilydd yr IOPC yn teimlo nad yw'r swyddog yn cydweithredu, dylai nodi'r seiliau mae'n credu nad yw'r swyddog wedi cydweithredu gyda'r ymchwiliad arnynt, beth sydd angen i'r swyddog ei wneud i arddangos ei fod yn cydweithredu, a darparu eglurhad o'r canlyniadau os nad yw'r swyddog yn barod i gydweithredu.

- **I ddeall y camau y gellir eu cymryd mewn achos o ddiffyg cydweithredu:**
  - Os oedd unrhyw oedi gormodol wrth ddarparu datganiad neu gytuno ar ddyddiad am gyfarfod wyneb yn wyneb, mae gan yr IOPC yr hawl i orfodi tyst i fynychu cyfweiliad a rhoi dyddiad iddo i fynychu.
  - Yn ystod trafodaethau wyneb yn wyneb, os teimlir bod y tyst yn tarfu ar yr ymchwiliad neu'n ymddwyn gyda diffyg cydweithrediad, byddai ein staff ymchwiliadau yn eu gwneud yn ymwybodol o hyn.
  - Os byddai'r diffyg cydweithredu yn parhau, rhoddir ystyriaeth i hysbysu'r adran safonau proffesiynol o hyn ar ôl i'r drafodaeth ddod i ben.
- **Cael eglurhad o'r camau hyn y dylid eu cymryd os nad yw'n gallu cydymffurfio:** os na all y swyddog ddarparu adroddiad tyst (neu os yw hyn yn debygol o fod wedi'i oedi), yna dylai gysylltu â'r ymchwilydd cyn gynted â phosibl ar ôl i'r cais ddod i law gydag eglurhad o pam na allai gydymffurfio. Byddai ymchwilydd yr IOPC fel arfer yn awyddus i brosesu'r datganiad hwn o fewn cyfnod o 14 diwrnod calendr, yna dylai'r tyst roi gwybod i'r IOPC a oes unrhyw ffactorau a all oedi hyn.

Mae'r IOPC yn disgwyl:

- **Y bydd y swyddogion yn darparu adroddiad:** rydym yn disgwyl i'r swyddog ddarparu adroddiad ar lafar neu'n ysgrifenedig yn dibynnu ar y ffordd fwyaf rhesymol neu gyfatebol o ganfod y wybodaeth honno.
- **Y bydd yr adroddiad yn gyflawn a didwyll:** rydym yn deall y gall swyddogion ddarparu adroddiad yn unig o ddigwyddiadau y maent wedi'u tystio a disgwyliwn iddynt ateb unrhyw gwestiynau yn llawn gyda'r wybodaeth sy'n hysbys i'r swyddog ar y pryd.
- **Bod unrhyw anawsterau a wynebir wrth ddarparu adroddiad cyflawn a didwyll yn cael eu hadnabod a'u cyfathrebu'n brydlon:** mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys os yw tyst yn gofyn mwy o wybodaeth benodol a fydd yn galluogi iddo ddarparu adroddiad.
- **Y bydd swyddogion yn ymateb i gwestiynau dilynol neu geisiadau am eglurhad;** disgwyliwn i'r swyddog ymateb yn gadarnhaol i unrhyw gwestiwn ychwanegol rhesymol a hanfodol gan ymchwilydd mewn perthynas ag ymateb neu ddatganiad cynharach.
- **Y bydd y swyddog yn mynychu cyfarfodydd yn bersonol pan mae gwneud hynny yn rhesymol a chyfatebol.** Gallai hyn gynnwys achosion pan:
  - Ellir cyflawni ymateb mwy prydlon a chynhwysfawr drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb (er enghraifft, lle mae'r digwyddiad yn gymhleth ac mae angen gofyn cwestiynau i'r tyst er mwyn sefydlu'r ffeithiau.) Gall hyn fod yn hanfodol i ennill y ddealltwriaeth orau o beth welodd, meddyliodd a

theimlodd y tyst ar y pryd ac mae'n bosibl na fydd y rhain bob tro yn cael eu cynnwys mewn datganiadau ysgrifenedig.

- Mae'r swyddog yn ifanc o ran gwasanaeth a byddai'n cael budd o gymorth ychwanegol yn ystod y cyfweiliad.
- Mae angen gofyn cwestiynau dilynol ac mae gwneud hyn yn ysgrifenedig yn debygol o fod yn hir.